**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Swyddog Cyswllt:
Sharon Thomas on 01352 702324
sharon.b.thomas@flintshire.gov.uk

At: Bob Aelod o'r Cyngor

14 Chwefror 2024

Annwyl Gynghorydd,

**<u>RHYBUDD O GYFARFOD HYBRID</u>**
**<u>CYNGOR SIR Y FFLINT</u>**
**<u>DYDD MAWRTH, 20FED CHWEFROR, 2024 1.00 PM</u>**

Yn gywir

Steven Goodrum
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Gellir mynychu'r cyfarfod hwn naill ai wyneb yn wyneb yn Siambr Cyngor yr Arglwydd Barry Jones, Cyngor Sir y Fflint, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint neu ar-lein.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y ffrydio byw yn dod i ben pan fydd unrhyw eitemau cyfrinachol yn cael eu hystyried. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

**R H A G L E N**

| | |
|---|---|
| 1 | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB** |

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

| | |
|---|---|
| 2 | **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD** (Tudalennau 5 - 6) |

**Pwrpas:** Derbyn Cwestiynau Cyhoeddus ar gyfer yr eitem hon: *derbyniwyd un erbyn y dyddiad cau.*

| | |
|---|---|
| 3 | **DATGAN CYSYLLTIAD** |

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

| | |
|---|---|
| 4 | **COFNODION** (Tudalennau 7 - 12) |

**Pwrpas:** I gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 fel cofnod cywir.

| | |
|---|---|
| 5 | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD** |

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw gyhoeddiad fel y'i dosbarthwyd.

| | |
|---|---|
| 6 | **DEISEBAU** |

**Pwrpas:** Mae hwn yn gyfle i Aelodau'r Cyngor gyflwyno deisebau ar ran pobl yn eu ward. Unwaith y byddant wedi dod i law, caiff deisebau eu pasio i'r Prif Swyddog priodol ar gyfer gweithredu ac ymateb iddynt.

**PRIF EITEMAU BUSNES**

| | |
|---|---|
| 7 | **CYLLIDEB REFENIW CRONFA'R CYNGOR 2024/25 - Y CAM CAU OLAF** (Tudalennau 13 - 62) |

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Prif Weithredwr

**Pwrpas:** I gosod cyllideb gyfreithiol a chytbwys ar gyfer 2024/25 ar argymhelliad y Cabinet.

| | |
|---|---|
| 8 | **GOSOD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2024/25** (Tudalennau 63 - 92) |

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu)

**Pwrpas:** Gosod taliadau Treth y Cyngor ar gyfer 2024-25 fel rhan o strategaeth cyllideb ehangach y Cynghorau.

9 **STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25** (Tudalennau 93 - 132)

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol

**Pwrpas:** Cyflwyno i'r Aelodau Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Drafft 2024/25.

10 **ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW - POLISI 2024/25** (Tudalennau 133 - 146)

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol

**Pwrpas:** Mae gofyn i Awdurdodau Lleol bob blwyddyn roi rhywfaint o'u hadnoddau refeniw o'r neilltu fel darpariaeth i ad-dalu dyledion. Mae'r adroddiad yn cyflwyno polisi drafft y Cyngor ar Isafswm Darpariaeth Refeniw.

**EITEMAU CYFFREDIN BUSNES**

11 **DATGANIAD POLISIAU TAL AR GYFER 2024/25** (Tudalennau 147 - 204)

Adroddiad Prif Weithredwr, Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol -

**Pwrpas:** Mae'n ofynnol bod bob cyngor yn cyhoeddi eu Datganiad ar Bolisïau Tâl erbyn mis Ebrill bob blwyddyn. Y Datganiad ar Bolisïau Tâl a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yw'r deuddegfed Datganiad blynyddol a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir y Fflint.

**ER GWYBODAETH**

12 **CWESTIYNAU**

**Pwrpas:** Nodi'r atebion i unrhyw gwestiwn a gyflwynwyd yn unol â Rheol Sefydlog 9.4(A) y Cyngor Sir: doedd dim wedi dod i law erbyn y dyddiad cau.

13 **CWESTIYNAU GAN AELODAU AM GOFNODION PWYLLGORAU**

**Pwrpas:** Ystyried unrhyw faterion a godwyd gan yr Aelodau o Gofnodion cyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau eraill, ynghyd ag unrhyw gwestiynau a godwyd dan Adran 4.20 Cyfansoddiad y Cyngor. Os bydd angen, mae'n bosib cael gafael ar gopïau o Gofnodion yr amrywiol gyfarfodydd a gynhaliwyd ers cyfarfod arferol diwethaf y Cyngor, sydd wedi'u cymeradwyo a'u cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod, drwy fynd i'r Adran Pwyllgorau a Gwasanaethau'r Aelodau.

## 14 RHYBUDD O GYNNIG

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw Rhybuddion o Gynnig: doedd dim wedi dod i law erbyn y dyddiad cau.

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.***